# Fendigaid nos

**Adolphe Adam**

CânSing

## Lefel


Canolradd

## Ynglŷn â'r gân hon

Mae 'Fendigaid Nos' ('Cantique de Noël') yn garol Nadolig adnabyddus. Fe'i cyfansoddwyd gan Adolphe Adam ym 1847.

## Cwmpas lleisiol

10fed




## Ffurf leisiol

Unsain/rhannau annibynnol

## Themâu/testunau

Carol/Y Nadolig/ Cristnogaeth

## Elfennau cerddorol


Gwead a strwythur

## Nodweddion cerddorol

Unsain a harmoni deulais, strwythur pennill a chytgan syml

## Ymarferion

- Gofynnwch i'r dysgwyr anadlu'n ddwfn a hisian neu chwythu'r aer allan yn araf, gan gyfrif pa mor hir y bydd hi'n cymryd i'r dysgwyr ryddhau'r holl aer. Ailadroddwch yr ymarfer, gan annog y dysgwyr i ragori ar eu hamser blaenorol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr gydbwyso ar un goes a chylchdroi'r goes arall, gan ddechrau gyda'r fferau, yna'r pengliniau, a'r cluniau'n olaf. Dylai'r dysgwyr geisio cylchdroi i gyfeiriad y cloc, yna'n wrthglocwedd, cyn ailadrodd gyda'r goes arall.
- Gofynnwch i'r dysgwyr symud cyhyrau eu hystumog i mewn ac allan wrth anadlu. (Drwy wneud hyn, bydd y dysgwyr yn ymwybodol iawn o'r symudiad sydd ei angen wrth anadlu.) Yna gofynnwch i'r dysgwyr anadlu i mewn am bedwar curiad, gan deimlo'r asennau'n ehangu at allan, ac anadlu allan am bedwar curiad, gan gadw'r asennau yn yr un lle hyd y gellir.
- Dangoswch rythm nodweddiadol y gân:




## Ymarferion CânSing a argymhellir

- Ymarferion lleisiol 9 (Tisian)
- Ymarferion ynganu 1 (Cwlwm tafod)
- Ymarferion lleisiol 2 (Ffidl didl ffal)
- Ymarferion corff 4 (Ymlacio ac ymestyn)

## Dysgu ac Addysgu

1 Dechreuwch drwy ddarllen drwy eiriau'r pennill cyntaf yn araf. Gwrandewch ar recordiad o'r gân, gan fynd dros unrhyw eiriau sy'n anghyfarwydd i'r dysgwyr neu'n anodd eu hynganu.

2 Addysgwch Bennill 1 fesul llinell, gan annog y dysgwyr i ganu'n fynegiannol.

3 Gwnewch yn siŵr fod y dysgwyr yn dilyn llinell yr alaw'n fanwl gywir, ac anogwch nhw i ganu brawddegau cyfan ar un anadl. Ceisiwch ddefnyddio ystumiau corfforol i annog y dysgwyr i ganu drwy'r brawddegau.

4 Cyflwynwch alaw'r gytgan–y rhan uchaf. Rhowch ddigon o gefnogaeth er mwyn helpu'r dysgwyr i gael hyd i nodyn cyntaf yr alaw. Mae'r nodyn hwn dri nodyn yn uwch na nodyn olaf y pennill (F i B♭–4ydd yn uwch).

5 Os yw'r dysgwyr yn cael anhawster â brawddeg benodol, gofynnwch iddynt wrando arnoch chi neu'r trac, ac yna ymuno.

6 Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r nodau a'r geiriau ac yn eu canu'n hyderus, anogwch nhw i ganu brawddegau cyfan ar un anadl, ac i ddal y nodau hir ar ddiwedd pob brawddeg.

7 Efallai y cewch fod dysgu'r alaw'n ddigon ar gyfer un sesiwn, ac y byddwch yn penderfynu mynd i'r afael ag ail ran y gytgan yn y sesiwn ganlynol.

8 Cyflwynwch ail ran y gytgan i bawb. Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt wedi sylwi ar unrhyw beth yn y rhan hon. Mae'r rhythm yn union yr un peth â'r hyn a geir yn yr alaw, a rhan yr harmoni yn symud o amgylch pedwar nodyn. (D i G).

9 Rhowch ddigon o gefnogaeth er mwyn helpu dysgwyr i ganfod nodyn cyntaf rhan yr harmoni. Mae'r nodyn hwn ddau nodyn yn is na nodyn olaf y pennill (F i D – 3ydd yn is).

10 Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus â rhan yr harmoni, rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp cyfartal. Rhowch yr alaw i'r naill grŵp (Rhan 1) a'r harmoni (Rhan 2) i'r grŵp arall.

11 Ceisiwch berfformio'r gân yn ddeulais gyda'r recordiad, neu hebddo. Newidiwch y rhannau fel bod pawb yn cael cyfle i ganu'r naill ran a'r llall.

Hawlfraint © ContinYou 2012

# Fendigaid nos

## Y camau nesaf

- Gwnewch yn siŵr fod y nodau hir yn cael eu canu'n llawn, yn enwedig ar ddiwedd brawddegau. Rhaid i'r geiriau fod yn eglur iawn, gyda chytseiniaid cryf a llafariaid pendant.
- Ceisiwch berfformio'r gytgan yn ddeulais heb unrhyw gyfeiliant, er mwyn annog y dysgwyr i wrando'n ofalus ar sain yr harmoni.
- Ceisiwch amrywio'r perfformiad. Er enghraifft, dechreuwch gyda llais unawdol ym mhennill 1, dau lais ym mhennill 2 a'r holl ddosbarth yn y gytgan. Ar ôl arbrofi gyda gwahanol weadau lleisiol, ceisiwch amrywio'r ddynameg mewn gwahanol rannau o'r gân. Er enghraifft, dechreuwch gyda dynameg ddistaw yn y pennill, crescendo (cryfhau'n raddol) i mewn i'r gytgan, a gorffen gyda diminuendo (tawelu'n raddol) ym mrawddeg olaf y gytgan.

## Perfformio, cyfansoddi a gwerthuso

- Gyda phartner, gallai'r dysgwyr ddefnyddio rhythm a geiriau'r gytgan i gyfansoddi eu darn harmoni deulais/dwy ran eu hunain. Dylai'r darn symud mewn cyfyngau 3ydd yn bennaf gan ddefnyddio graddfa G fwyaf (GABCDEF#G1). Dylai'r holl bartneriaid berfformio'u darn o flaen y grŵp drwy ganu neu ddefnyddio offerynnau.
- Gallai'r dysgwyr geisio cyfansoddi eu cân eu hunain ar strwythur pennill a chytgan, gan gadw at thema'r Nadolig wrth gyfansoddi'r gerddoriaeth a'r geiriau. Gallai'r dysgwyr hefyd berfformio'u cân a defnyddio'r corff fel offeryn taro yn gyfeiliant iddi.
- Gwrandewch ar recordiad o'r gân a gofyn i'r dysgwyr gynnig sylwadau ar wead y gân, cyflymder y darn, a nodweddion carol Nadolig. Recordiwyd 'O Holy Night' (y fersiwn Saesneg) gan Mariah Carey ar ei halbwm 'Merry Christmas'. Gwrandewch a rhowch werthusiad o'r recordiad hwn, a thrafod ei brif nodweddion.

## Asesu ar gyfer dysgu a datblygu meddwl

### Holi

**Adnodd: Cwestiynau mawr**

- A oedd y gân hon yn hawdd neu'n anodd ei dysgu? Pam hynny?
- A oes gwahaniaeth barn o fewn y grŵp? Ymchwiliwch i'r rhesymau am hyn.

### Adborth

**Adnodd: Sut i wella**

Dangoswch i'r dysgwyr sut i wella. Gallai dod i mewn yn hyderus ar y curiadau i fyny yn y penillion neu ganu'r gân gydag arddeliad fod yn gamau nesaf addas i rai. I eraill, gallai fod yn well iddynt ganolbwyntio ar gywirdeb y traw wrth ganu'r harmoni deulais yn y gytgan. Dangoswch hyn drwy ganu neu chwarae'r recordiad; rhoi amser i'r dysgwyr wella, yna gwirio i sicrhau bod y camau nesaf wedi'u cwblhau.

### Hunanasesiad/Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Her post-it**

Mewn parau, dylai'r dysgwyr drafod y ddau gwestiwn canlynol a gwerthuso'r hyn y maent wedi'i ddysgu:

- A ydw i wedi dysgu unrhyw beth newydd wrth ganu'r gân hon?
- Beth y mae angen i mi ei newid er mwyn gwella fy sgiliau canu?

Dylai'r dysgwyr ysgrifennu eu sylwadau ar nodynnau post-it, wedyn eu rhannu â gweddill y grŵp.

Hawlfraint © ContinYou 2012